Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llan-gors

**Llan-gors**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 7UB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llan-gors

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llan-gors |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 141 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 124 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 7.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 17.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/10/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn canolbwyntio am gyfnodau amser estynedig, ac yn datblygu eu gwydnwch. Maent yn mynychu'n rheolaidd ac yn brydlon. Mae disgyblion hŷn yn cefnogi eu cyfoedion iau yn dda, fel modelau rôl a thrwy eu cyfrifoldebau cyfeillio.

Mae oedolion yn hyrwyddo ethos cryf o ofal a chynwysoldeb. Ceir perthnasoedd cadarnhaol a phroffesiynol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae cwricwlwm datblygol yr ysgol yn eang a chyfannol, er enghraifft yn cynnwys ystyriaethau pwysig i amrywiaeth a materion byd-eang, sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion myfyriol.

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel sy'n cymell disgyblion i lwyddo. O ganlyniad, yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, er enghraifft yn eu darllen a'u hysgrifennu. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson. Mae diffyg her mewn lleiafrif o wersi, ac yn rhy aml, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion a'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hannibyniaeth. Nid yw athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn, ar y cyd, o ddilyniant ac asesu, ac mae hyn yn rhwystro'u gallu i gynllunio a datblygu medrau disgyblion yn systematig.

Mae ansefydlogrwydd diweddar yn yr arweinyddiaeth wedi effeithio ar berthnasoedd proffesiynol ac wedi tarfu ar fonitro ansawdd addysgu a chynnydd disgyblion yn systematig. Ar draws gwaith yr ysgol, mewn gormod o achosion, mae diffyg cydlyniant i systemau. Mae hyn yn golygu nad oes gan arweinwyr drosolwg digon clir o beth sy'n gweithio'n dda, a ble mae angen gwelliannau. Mae pob un o'r staff yn deall pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel ac yn gwybod y dylent weithredu os oes ganddynt bryderon am ddiogelwch neu les disgybl. Fodd bynnag, mae rolau a chyfrifoldebau a newidiwyd yn ddiweddar yn golygu nad yw pawb yn siŵr am y prosesau cywir i'w dilyn, ar hyn o bryd.

Mae llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad cryf i'r ysgol, gan ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod cythryblus diweddar. Fodd bynnag, mae eu heffeithiolrwydd dros gyfnod o ran dwyn arweinwyr i gyfrif wedi bod yn gyfyngedig. Dros gyfnod, nid yw rheoli a gwerthuso cyllid a dyrannu adnoddau'r ysgol wedi bod yn ddigon cadarn. Adeg yr arolygiad craidd, mae arweinyddiaeth yr ysgol yn y dyfodol yn aneglur.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau gweithdrefnau diogelu

A2 Cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethu i ddarparu sefydlogrwydd a chyfeiriad strategol i'r ysgol a sicrhau cydlyniaeth a chydlyniant ar draws pob agwedd ar ei gwaith

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn galluogi pob un o'r disgyblion i wneud y cynnydd y gallent ac y dylent ei wneud

A4 Sicrhau bod prosesau gwerthuso cadarn yn arwain at welliannau clir i ddarpariaeth yr ysgol a deilliannau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen mesurau arbennig yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif werthusiad

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cael cyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol, gan arwain at berthnasoedd proffesiynol toredig rhwng arweinwyr a rheolwyr. Ar hyn o bryd, yn ystod absenoldeb y pennaeth parhaol, mae'r corff llywodraethol wedi sicrhau gwasanaethau pennaeth gweithredol dros dro ar y cyd o ffederasiwn cyfagos, i oruchwylio arweinyddiaeth strategol, a chefnogi rheolaeth weithredol esmwyth yr ysgol. Mae'r trefniadau dros dro diweddar hwn wedi llwyddo i ddechrau ailadeiladu perthnasoedd proffesiynol, ac ysgogi staff a llywodraethwyr i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y gwaith hwn, ac ar hyn o bryd, mae'r trefniadau arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol yn ansefydlog.

Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn canolbwyntio am gyfnodau amser estynedig, ac yn gwneud eu gorau, hyd yn oed pan fyddant yn cael trafferth. Ceir perthnasoedd gweithio proffesiynol cryf rhwng yr oedolion a'r disgyblion, ac mae'r rhain yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu gwydnwch, eu hyder a'u chwilfrydedd. Mae hyn yn amlwg ym medrau llafaredd disgyblion, sy'n hynod gryf ac yn galluogi bron pob un ohonynt i ddatblygu i fod yn gyfathrebwyr argyhoeddiadol a medrus.

Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae gan athrawon ddealltwriaeth glir o'r hyn y dylai disgyblion ei gyflawni mewn gwersi, ac yn gosod disgwyliadau uchel sy'n cymell disgyblion i lwyddo. Maent yn defnyddio gwybodaeth bwnc gref i fodelu geirfa berthnasol yn gywir ac esbonio cysyniadau'n glir. Mae athrawon yn hyrwyddo mwynhad mewn darllen ac yn defnyddio amrywiaeth eang o destunau difyr sy'n dal diddordeb disgyblion yn dda; er enghraifft, mae adnoddau ysgogol yn rhoi diben clir i ysbrydoli disgyblion iau i ysgrifennu'n berswadiol. Mae athrawon yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddysgu'r seiniau a wna llinynnau llythrennau yn effeithiol, i ddarllen er mwyn cael ystyr a myfyrio'n feirniadol ar yr hyn y maent yn ei ddarllen. O

ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl, sy'n cymhwyso'u darllen yn dda ar draws eu dysgu ehangach.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu ystod briodol o wybodaeth a medrau. At ei gilydd, mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ehangder a dyfnder addas ar gyfer dysgu a datblygiad cyfannol disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd gwerthfawr a dilys i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth cymunedau yn y Gymru fodern. Trwy gyfarfod ag ymwelwyr wedi'u dewis yn dda, mae disgyblion hŷn yn datblygu empathi a dealltwriaeth ar gyfer profiadau pobl sydd wedi cael eu dadleoli gan wrthdaro. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o annhegwch ac anghyfiawnder, ac yn eu tro, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gallu cryf i feddwl ac ymddwyn fel dinasyddion moesegol a myfyriol. Mae hyn, wedi'i gyfuno â gweithgareddau sy'n cael eu mynychu gan nifer dda o ddisgyblion, fel y clwb gweddi amser cinio, yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

At ei gilydd, fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn amrywiol, ac mae hyn yn golygu bod cynnydd disgyblion yn anghyson dros gyfnod. Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn treulio'n rhy hir yn gwrando ar athrawon ac yn cwblhau tasgau nad ydynt yn eu herio'n ddigonol neu'n adeiladu effeithiol ar eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Er enghraifft, pan mae athrawon yn gor-sgaffaldio gweithgareddau, mae hyn yn lleihau cyfleoedd i ddisgyblion weithio ag annibyniaeth a bod yn fwy uchelgeisiol yn eu hysgrifennu.

Nid yw staff wedi sefydlu dealltwriaeth glir, ar y cyd, o sut beth yw cynnydd da. Mae hyn yn cyfyngu ar allu athrawon i nodi a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion, a datblygu medrau disgyblion yn systematig fel eu bod yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn amsugno'r Gymraeg yn frwdfrydig, gan ddysgu geirfa a phatrymau iaith newydd yn rhwydd. Fodd bynnag, dros gyfnod, er eu bod yn gyfathrebwyr brwdfrydig o hyd, nid yw disgyblion hŷn bob amser yn adeiladu ar y medrau hyn yn ddigon systematig a graddol i wneud y cynnydd y gallent.

Mae staff wedi sefydlu ethos o ofal a chynwysoldeb yn yr ysgol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol i gefnogi eu lles. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae disgyblion hŷn yn awyddus i roi arweiniad i ddisgyblion iau fel modelau rôl a thrwy gyfrifoldebau cyfeillio a monitro. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn briodol i gefnogi disgyblion o gefndiroedd tlotach, i ennyn eu diddordeb ym mhob agwedd ar fywyd ysgol a sicrhau nad ydynt yn disgyn y tu ôl i'w cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwybod p'un a yw'r cyllid ychwanegol yn gwneud gwahaniaeth i ddeilliannau'r disgyblion targedig.

Ceir ystod eang o grwpiau gweithgar llais y disgybl. Mae aelodau'n ymgyrchu dros gael eu dewis, yn gosod eu hagendâu eu hunain, yn cadw cofnodion ac yn gohebu â llywodraethwyr yr ysgol a Ffrindiau'r Ysgol, er enghraifft. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau gwneud gwelliannau i weithgareddau maes chwarae ac yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, mae dylanwad disgyblion ar y cwricwlwm a materion mwy strategol yn llai datblygedig.

Ceir systemau gwerthfawr i gefnogi a meithrin disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn cynnwys gwaith partneriaeth effeithiol gyda rhieni ac asiantaethau allanol. Fodd bynnag, nid oes ffocws digon tynn bob amser i'r targedau unigol ar gyfer y disgyblion hyn, ac o ganlyniad, mae gwahanol oedolion yn gweithio tuag at nodau ychydig yn wahanol o bryd i'w gilydd.

Mae pob un o'r staff yn deall pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel ac yn gwybod y dylent weithredu os oes ganddynt bryderon am ddiogelwch neu les disgybl. Fodd bynnag, mae ansefydlogrwydd mewn arweinyddiaeth wedi arwain at newid rolau a chyfrifoldebau yn gysylltiedig â diogelu. Ar hyn o bryd, nid yw pawb yn siŵr am y prosesau cywir i'w dilyn. Mae arweinwyr yn cydnabod yn gywir fod angen cryfhau'r diwylliant diogelu.

Mae cyfnod y cythrwfl mewn arweinyddiaeth wedi tarfu ar gylch arferol gweithgarwch arweinyddiaeth. Serch hynny, at ei gilydd, nid yw arweinwyr yn monitro ansawdd darpariaeth ystafell ddosbarth nac yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn ddigon systematig yn rheolaidd. Tan yn ddiweddar, mae'r cyfleoedd i staff gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol wedi bod yn gyfyngedig iawn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd wrth fynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau gwella cenedlaethol wedi bod yn araf. Er enghraifft, ar hyn o bryd, nid yw cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn caffael ac yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt mewn ffordd strwythuredig a graddol. Nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigon da ar sicrhau arfer gyson o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth, ac nid oes gan staff ddealltwriaeth glir, ar y cyd, o asesu a dilyniant.

Er gwaethaf gwelliannau diweddar iawn, mae diffyg cydlyniant ym mhrosesau'r ysgol, ar y cyfan. Er enghraifft, mae athrawon yn cadw eu cofnodion dosbarth eu hunain o oedrannau darllen disgyblion a data defnyddiol arall. Fodd bynnag, nid oes un system gydlynus i alluogi arweinwyr i olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnod, a nodi uchafbwyntiau ac isafbwyntiau. Dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw arweinwyr wedi defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn ddigon strategol i nodi effaith camau gwella neu amlygu'r camau nesaf.

Cafwyd dysgu proffesiynol gwerthfawr yn ddiweddar. Er enghraifft, mae secondiad Cymraeg wedi codi proffil y Gymraeg yn yr ysgol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfleoedd i athrawon ddatblygu eu haddysgeg a'u haddysgu wedi bod yn gyfyngedig.

Mae llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad cryf i'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi darparu cymorth buddiol i rieni a staff yn ystod cyfnod anodd i'r ysgol. Maent yn nodi'n gywir effaith ddiweddar a chadarnhaol y trefniadau arweinyddiaeth dros dro o ran gwella cyfathrebu a darparu cyfeiriad strategol o'r newydd.

Fodd bynnag, mae'r newidiadau hyn yn rhai diweddar iawn, a thros gyfnod, mae effeithiolrwydd llywodraethwyr o ran darparu craffu neu ddwyn arweinwyr i gyfrif wedi bod yn gyfyngedig. Nid yw llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o gryfderau a gwendidau'r ysgol oherwydd nad yw hunanwerthuso yn ddigon gwrthrychol na thrylwyr. Er bod llywodraethwyr yn adolygu polisïau'n rheolaidd, yn

aml, nid yw eu hadolygiad yn nodi nad yw'r polisïau'n adlewyrchu'r arfer bresennol yn yr ysgol.

Dros gyfnod, nid yw rheoli a gwerthuso cyllid a dyrannu adnoddau'r ysgol wedi bod yn ddigon cadarn. Ni phennir costau cynlluniau ar gyfer gwella bob amser ac nid yw'r gwariant bob amser yn cysylltu'n ddigon tynn â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Ymhellach, mae arweinyddiaeth yr ysgol yn y dyfodol yn aneglur ar hyn o bryd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn craffu ac yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  20/12/2024